Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

| | |
|---|---|
| **Licence No:** | **GEN/WCA/022/2023** |
| **Valid From:** | **1st January 2023** |
| **Expiry:** | **31st December 2027** |

**RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017**

**<u>Trwydded i feddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau rhywogaethau o anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'u cludo i ddibenion gwyddonol neu addysgol</u>**

***Dim ond ar gyfer aelodau llawn o Urdd y Tacsidermyddion y bwriadwyd y drwydded hon***

Mae'r corff adnoddau naturiol ar gyfer Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru), gan arfer yr hawliau a roddwyd dan reoliad 55 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, ac o fod yn fodlon yng nghyswllt y pwrpas a nodwyd ym mharagraff 1 nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd y weithred a awdurdodir yn cael effaith andwyol ar gadw'r poblogaethau o'r rhywogaeth dan sylw mewn statws cadwraeth ffafriol yn eu cynefin naturiol, drwy hyn yn rhoi'r drwydded a ganlyn:

| **TRWYDDED** | |
|---|---|
| 1) | Mae'r drwydded hon yn awdurdodi gweithgareddau yr ymgymerir â hwy i ddibenion gwyddonol neu addysgol. |
| 2) | Yn amodol ar y telerau a'r amodau isod, ac i'r dibenion a nodir ym mharagraff 1 uchod, mae'r drwydded hon yn rhoi caniatâd i feddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn Atodiad IV i Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE ac i'w cludo. Heb y drwydded byddai hyn yn drosedd dan reoliadau 43(3)(a) neu (b) Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. |

| **AMODAU** | | |
|---|---|---|
| 3) | Dim ond ar gyfer aelodau llawn o Urdd y Tacsidermyddion, ynghyd â gweithwyr, isgontractwyr, negeswyr a gwasanaethau post sy'n gweithredu ar eu rhan, y mae'r drwydded hon yn berthnasol. | |
| 4) | Mae'r drwydded hon yn rhoi caniatâd yn unig i feddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn Atodiad IV neu Atodiad II(b) (ac eithrio bryoffytau) i Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE a'u cludo, ar yr amod | |
| | a) | eu bod yn cael eu cadw a'u cludo i ddibenion gwyddonol neu addysgol yn unig; a |
| | b) | eu bod wedi eu cymryd o'r gwyllt yn y Gymuned Ewropeaidd heb dorri deddfwriaeth berthnasol yr Aelod-wladwriaeth dan sylw (gweler Nodyn d). |
| | c) | Yn amodol ar amod 6, rhaid i unrhyw sefydliad neu berson sy'n dibynnu ar y drwydded hon gan ei fod yn aelod llawn o Urdd y Tacsidermyddion neu gan ei fod yn weithiwr cyflogedig neu'n is-gontractwr i sefydliad sy'n aelod llawn, hysbysu Tîm Gwarchod Rhywogaethau |

Ffôn/Tel 0300 065 3000

Ebost/Email: trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk or specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg Correspondence welcomed in Welsh and English

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig, a rhoi eu manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, o fewn mis i'r dyddiad y daw'r sbesimen i'w meddiant am y tro cyntaf. |
| 5) | Lle bo person neu sefydliad wedi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn unol ag amod 4 uchod, nid oes angen i'r rhai hynny sy'n dibynnu ar y drwydded hon gan eu bod yn weithwyr cyflogedig neu'n isgontractwyr i'r person neu'r sefydliad hwnnw hysbysu CNC ar wahân. | |
| 6) | Rhaid catalogio sbesimenau a chadw rhestr ohonynt gan ei diweddaru'n flynyddol yn unol â gofynion Atodiad A. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'w harchwilio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar unrhyw adeg resymol. | |
| 7) | Mae'r drwydded hon yn berthnasol yng Nghymru, ochr y tir o'r marc distyll cymedrig. | |

Signed for and on behalf of
**Natural Resources Wales**

| **NOTES** | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn bod yn gymwys i feddu ar sbesimenau marw a'u cludo dan y drwydded hon rhaid ichi fod yn aelod llawn o Urdd y Tacsidermyddion a rhaid ichi fod yn gwneud hynny i ddibenion gwyddonol neu addysgol yn unig. Nid yw'r drwydded hon yn caniatáu meddu ar sbesimenau marw a'u cludo i ddibenion eraill, ac nid yw'n caniatáu i bobl nad ydynt yn aelodau llawn o'r Urdd feddu ar sbesimenau o'r fath a'u cludo. Mae angen trwydded ar wahân ar gyfer hynny. Gellir cael ffurflenni cais drwy gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfeiriad uchod. | |
| (b) | Gellir cael gwybodaeth am Urdd y Tacsidermyddion ar-lein yn www.taxidermy.org.uk . | |
| (c) | Gwaherddir meddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau rhywogaethau a restrwyd yn Atodiad IV i Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE (92/43/EEC) a'u cludo gan reoliad 41(3)(a) a (b) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). | |
| (d) | Mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i bob rhywogaeth a restrwyd yn Atodiad IV ac nid yn unig i'r rhai sydd i'w gweld yn y DU. Mae rhestr lawn o rywogaethau Atodiad IV i'w gweld ar-lein yn: The Habitats Directive - Environment - European Commission (europa.eu) | |
| (e) | Mae rhai eithriadau i'r gwaharddiadau yn rheoliadau 43(3): | |
| | (i) | lle cafodd y sbesimen ei gymryd o'r gwyllt y tu allan i diriogaeth Ewropeaidd un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu pan gafodd ei fridio neu ei drin mewn caethiwed |
| | (ii) | lle cafodd y sbesimen ei gymryd o'r gwyllt yn y Deyrnas Unedig heb dorri'r gyfraith a chyn 10 Mehefin 1994; |
| | (iii) | lle cafodd y sbesimen ei gymryd o'r gwyllt cyn y 'dyddiad perthnasol' yn Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd dan sylw heb dorri cyfraith yr Aelod-wladwriaeth honno. Yn y DU y dyddiad perthnasol yw 10 Mehefin 1994. Mewn Aelod-wladwriaethau eraill y dyddiad perthnasol yw 10 Mehefin 1994 neu, pan ymunodd yr Aelod-wladwriaeth â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad hwnnw, y dyddiad yr ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd; |
| | (iv) | pan fo'r sbesimen o rywogaeth a eithrir, sef y rhai a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 |
| (f) | Mae'r drwydded hon yn cynnwys meddiant sbesimenau a gymerwyd o'r gwyllt ar ôl y 'dyddiad perthnasol' heb dorri unrhyw gyfraith berthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth y'i cymerwyd ynddi. Yn y DU er enghraifft, byddai hyn yn golygu heb dorri deddfwriaeth bywyd gwyllt berthnasol fel Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), Deddf Plâu (1954) a Deddf Lles Anifeiliaid. (2006). | |
| (g) | Mae'r drwydded yn caniatáu gwneud pethau a fyddai, fel arall, yn drosedd dan y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fe allai methu â gweithredu o fewn dibenion y drwydded hon fel y nodir ym mharagraff 1 , neu fethu â chydymffurfio â'r amodau a'r telerau a bennir ym mharagraffau 3 i 9, olygu na fyddai'r drwydded yn berthnasol, gan arwain at gyflawni trosedd. Ymhellach, dan reoliad 60 y Rheoliadau, mae'n drosedd torri neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod o fewn trwydded a roddwyd ar ôl 21 Awst 2007. Y gosb waethaf ar gyfer cyflawni trosedd dan y Rheoliadau yw dirwy lefel 5 (£5000) a/neu ddedfryd o garchar am chwe | |

| | |
|---|---|
| | mis.. |
| (h) | Dim ond ar gyfer gweithwyr, is-gontractwyr, negeswyr a gwasanaethau post sy'n gweithredu ar ran aelodau cyflawn o Urdd y Tacsidermyddion y mae'r drwydded hon yn berthnasol, ac nid yw'n ymestyn i wirfoddolwyr. Nid yw'r drwydded yn berthnasol i aelodau cyflawn o'r Urdd sy'n meddu ar/neu sy'n cludo rhywogaethau a restrir yn Atodiad IV y Gyfarwyddeb Cynefinoedd at ddibenion personol, nac i weithwyr ac unigolion a gaiff eu his-gontractio gan aelodau o'r Urdd i'r perwyl hwn. |
| (i) | Nid yw'r drwydded hon yn caniatáu gweithredoedd sydd wedi eu gwahardd dan unrhyw ddeddfwriaeth arall, ac nid yw'n rhoi unrhyw hawl mynediad i dir. |
| (j) | Gall Cyfoeth Naturiol Cymru addasu neu ddirymu'r drwydded hon ar unrhyw adeg |
| (k) | Cyhoeddwyd trwydded debyg yn Lloegr gan Natural England.. |
| (l) | **Cynghorir unrhyw berson sy'n bwriadu cyflawni gweithgareddau o dan y drwydded hon i argraffu, llofnodi a dyddio copi a'i gadw i'w archwilio.** |

Mae'r drwydded hon yn berthnasol i'r sefydliadau a'r unigolion a restrir yn amod 3 uchod yn unig:

## ATODIAD A

### Cofrestr sbesimenau

Rhaid i'r gofrestr o sbesimenau Atodiad IV gynnwys y wybodaeth a nodir yn y tabl isod a rhaid ei

chyflwyno yn y ffurf a ddangosir. Dylid cadw copi o'r gofrestr yn electronig mewn ffurf sy'n gydnaws â Microsoft Excel**.**

| Enw gwyddonol | Enw cyffredin | Sbesimen cyfan (Ie/Nage) | Os Nage, nodwch y rhan neu'r deilliad | Nifer | Y dyddiad y daeth i'ch meddiant |
|---|---|---|---|---|---|
| Enghraifft: *Nyctalus noctula* | Ystlum mawr | Ie | | 1 | 01/05/2007 |
| | | | | | |